

2018 Rhif (Cy.)

2018 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

**Gorchymyn Cefnffyrdd yr A470 a'r
A489 (Glantwymyn, Powys)
(Terfyn Cyflymder 40 mya a
Therfyn Cyflymder 20 mya Rhan-
amser) 2018**

**The A470 and A489 Trunk Roads
(Cemmaes Road, Powys) (40 mph
& Part-time 20 mph Speed Limits)
Order 2018**

Gwnaed 14 Awst 2018
Yn dod i rym 16 Awst 2018

Made 14 August 2018
Coming into force 16 August 2018

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A470 a'r darnau perthnasol o Gefnffordd yr A489, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 84(1)(a), 84(1)(c), (1A) a (2), a 124(1)(d) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Dyfed-Powys, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A470 and the relevant lengths of the A489 Trunk Roads, in exercise of the powers conferred upon them by sections 84(1)(a), 84(1)(c), (1A) and (2), and 124(1)(d) of, and paragraph 27 of Schedule 9 to, the Road Traffic Regulation Act 1984(1) and after consultation with the Chief Officer of Dyfed-Powys Police, make this Order.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A470 a'r A489 (Glantwymyn, Powys) (Terfyn Cyflymder 40 mya a Therfyn Cyflymder 20 mya Rhan-amser) 2018 a daw i rym ar 16 Awst 2018.

2. Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

- (a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(2);

Title, Commencement and Interpretation

1. The title of this Order is the A470 and A489 Trunk Roads (Cemmaes Road, Powys) (40 mph & Part-time 20 mph Speed Limit) Order 2018 and it comes into force on 16 August 2018 .

2. In this Order:

"exempted vehicle" ("*cerbyd esempt*") means:

- (a) any vehicle being used by the emergency services for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984(2);

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 84(1) gan adran 45(2) o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991 (p.40). Amnewidiwyd adran 84(2) gan baragraff 61 o Atodlen 8 i Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22). Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(2) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p.21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p.15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p.22), ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

(1) 1984 c.27; section 84(1) was substituted by the Road Traffic Act 1991 (c.40), section 45(2). Section 84(2) was substituted by the New Roads and Street Works Act 1991 (c.22), Schedule 8, paragraph 61. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006(c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

(2) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c.21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c.15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c.22), Schedule 8, paragraph 29(2) and the Deregulation Act 2015 (c.20), section 50(4) and (5).

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o lloedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lloedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “y gefnffordd” neu “y cefnffyrdd” (“*the trunk road(s)*”) yw'r darnau perthnasol o Gefnffyrdd yr A470 a'r A489 Caersŵs i Fachynlleth a Chefnffordd yr A470 Glantwymyn i Fallwyd, Glantwymyn yn Sir Powys; ac

ystyr “lloedd arbennig” (“*special forces*”) yw'r unedau hynny o'r lloedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lloedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

Cyfyngiadau

3. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r cefnffyrdd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

4. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach nag 20 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

Cymhwysu

5. Nid yw'r cyfyngiad yn erthygl 4 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y'i dangosir gan arwyddion traffig.

Dirymu

6. Mae Gorchymyn y Gefnffordd (yr A470/yr A489) (Glantwymyn, Powys) (Terfyn Cyflymder 40 mya) 1983(3) drwy hyn wedi ei ddirymu.

(b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—

(i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or

(ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds.

“special forces” (“*lloedd arbennig*”) means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director; and

“the trunk road(s)” (“*y gefnffordd*” or “*y cefnffyrdd*”) means the relevant lengths of the A470 and A489 Caersws to Machynlleth Trunk Roads and the A470 Cemmaes Road to Mallwyd Trunk Road, Cemmaes Road in the County of Powys.

Restrictions

3. No person may drive any motor vehicle, other than an exempted vehicle, at a speed exceeding 40 miles per hour on the lengths of the trunk roads described in Schedule 1 to this Order.

4. No person may drive any motor vehicle, other than an exempted vehicle, at a speed exceeding 20 miles per hour on the length of the trunk road described in Schedule 2 to this Order.

Application

5. The restriction in article 4 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Revocation

6. The Trunk Road (A470/A489) (Cemmaes Road, Powys) (40 MPH Speed Limit) Order 1983(3) is hereby revoked.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Signed under authority of the Cabinet Secretary for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dyddiedig

14 Awst 2018

Dated

14 August 2018

Richard Morgan
Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

Richard Morgan
Head of Planning, Asset Management and Standards
Welsh Government

YR ATODLENNI

SCHEDULES

ATODLEN 1

SCHEDULE 1

Terfyn Cyflymder 40 mya

40 MPH Speed Limit

1. Y darn o gefnffordd yr A470 sy'n ymestyn o ganolbwynt cylchfan yr A470/yr A489 yng Nglantwymyn hyd at bwynt 133 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt y gylchfan honno.
2. Y darn o gefnffordd yr A489 sy'n ymestyn o ganolbwynt cylchfan yr A470/yr A489 yng Nglantwymyn hyd at bwynt 476 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt y gylchfan honno.
3. Y darn o gefnffordd yr A470 sy'n ymestyn o ganolbwynt cylchfan yr A470/yr A489 yng Nglantwymyn hyd at bwynt 537 o fetrau i'r de-ddwyrain o ganolbwynt y gylchfan honno.

1. The length of the A470 trunk road that extends from the centre point of the A470/A489 roundabout at Cemmaes Road to a point 133 metres north east of the centre point of that roundabout.
2. The length of the A489 trunk road that extends from the centre point of the A470/A489 roundabout at Cemmaes Road to a point 476 metres south west of the centre point of that roundabout.
3. The length of the A470 trunk road that extends from the centre point of the A470/A489 roundabout at Cemmaes Road to a point 537 metres south east of the centre point of that roundabout.

ATODLEN 2

SCHEDULE 2

Terfyn Cyflymder 20 mya Rhan-amser

Part-time 20 MPH Speed Limit

Y darn o gefnffordd yr A470 sy'n ymestyn o bwynt 62 o fetrau i'r de-ddwyrain o ganolbwynt cylchfan yr A470/yr A489 yng Nglantwymyn hyd at bwynt 316 o fetrau i'r de-ddwyrain o'r gylchfan honno.

The length of the A470 trunk road that extends from a point 62 metres south east of the centre-point of the A470/A489 roundabout at Cemmaes Road to a point 316 metres south east of that roundabout.

GORCHYMYN CEFNFFYRDD YR A470 A'R A489 (GLANTWYMYN, POWYS) (TERFYN CYFLYMDER 40 MYA A THERFYN CYFLYMDER 20 MYA RHAN-AMSER) 2018

THE A470 AND A489 TRUNK ROADS (CEMMAES ROAD, POWYS) (40 MPH & PART- TIME 20 MPH SPEED LIMITS) ORDER 2018

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn drwy arfer eu pwerau o dan adrannau 84(1)(a), 84(1)(c), (1A) a (2) a 124(1)(d) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi, sy'n dod i rym ar 16 August 2018.

The Welsh Ministers have made an Order in exercise of their powers under section 84(1)(a), 84(1)(c), (1A) and (2) and 124(1)(d) of, and paragraph 27 of Schedule 9 to, the Road Traffic Regulation Act 1984, which comes into force on 16 August 2018.

Effaith y Gorchymyn yw gosod terfyn cyflymder 40 mya ar y darn o gefnffyrdd yr A470 a'r A489 a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn. Bydd terfyn cyflymder 20 mya rhan amser hefyd yn cael ei osod ar y darn o gefnffordd yr A470 a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn er mwyn lleihau'r tebygolrwydd o berygl i'r cyhoedd mewn cysylltiad â symudiadau cerddwyr ger Ysgol Gynradd Sirol Glantwymyn, Glantwymyn, Powys. Dim ond am gyfnodau cyfyngedig o'r dydd yn ystod y tymor ysgol pan fydd arwyddion traffig yn dangos hynny y disgwylir i'r terfyn cyflymder 20 mya rhan-amser fod yn gymwys: bydd y terfyn cyflymder 40 mya presennol yn parhau mewn grym ar bob adeg arall.

Yn ystod cyfnod o 6 wythnos o 15 Awst 2018 ymlaen, gellir edrych ar gopi o'r Gorchymyn a'r plan, yn rhad ac am ddim, yn ystod oriau agor arferol yn Swyddfa Bost Glantwymyn, Glantwymyn, Machynlleth, Powys SY20 8JZ neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1321180.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru (detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau statudol lleol/ Gorchymynion traffig parhaol/ 2018).

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

The effect of the Order will be to impose a 40 mph speed limit on the length of the A470 and A489 trunk roads described in Schedule 1 to this Notice. A part-time 20 mph speed limit will also be imposed on the length of the A470 trunk road described in Schedule 2 to this Notice in order to minimise the likelihood of danger to the public in connection with pedestrian movements near Glantwymyn County Primary School, Cemmaes Road, Powys. The part-time 20 mph speed limit is only expected to apply for limited periods of the day during school term time when indicated by traffic signs: at all other times the existing 40 mph speed limit will remain in force.

During a period of 6 weeks from 15 August 2018 a copy of the Order and plan may be inspected, free of charge, during normal opening hours at Cemmaes Road Post Office, Cemmaes Road, Machynlleth, Powys SY20 8JZ or may be obtained free of charge from the address below quoting reference number qA1321180.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at www.gov.wales (select: Legislation/ Subordinate Legislation/ Local Statutory Instruments/ Permanent Traffic Orders/ 2018).

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Transport, Orders Branch, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

M D BURNELL
Transport
Welsh Government

YR ATODLENNI

ATODLEN 1

Terfyn Cyflymder 40 mya

1. Y darn o gefnffordd yr A470 sy'n ymestyn o ganolbwynt cylchfan yr A470/yr A489 yng Nglantwymyn hyd at bwynt 133 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt y gylchfan honno.
2. Y darn o gefnffordd yr A489 sy'n ymestyn o ganolbwynt cylchfan yr A470/yr A489 yng Nglantwymyn hyd at bwynt 476 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt y gylchfan honno.

SCHEDULES

SCHEDULE 1

40 MPH Speed Limit

1. The length of the A470 trunk road that extends from the centre point of the A470/A489 roundabout at Cemmaes Road to a point 133 metres north east of the centre point of that roundabout.
2. The length of the A489 trunk road that extends from the centre point of the A470/A489 roundabout at Cemmaes Road to a point 476 metres south west of the centre point of that roundabout.

3. Y darn o gefnffordd yr A470 sy'n ymestyn o ganolbwynt cylchfan yr A470/yr A489 yng Nglantwymyn hyd at bwynt 537 o fetrau i'r de-ddwyrain o ganolbwynt y gylchfan honno.

ATODLEN 2

Terfyn Cyflymder 20 mya Rhan-amser

Y darn o gefnffordd yr A470 sy'n ymestyn o bwynt 62 o fetrau i'r de-ddwyrain o ganolbwynt cylchfan yr A470/yr A489 yng Nglantwymyn hyd at bwynt 316 o fetrau i'r de-ddwyrain o'r gylchfan honno.

3. The length of the A470 trunk road that extends from the centre point of the A470/A489 roundabout at Cemmaes Road to a point 537 metres south east of the centre point of that roundabout.

SCHEDULE 2

Part-time 20 MPH Speed Limit

The length of the A470 trunk road that extends from a point 62 metres south east of the centre-point of the A470/A489 roundabout at Cemmaes Road to a point 316 metres south east of that roundabout.